# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-24

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh***

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o [www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog](http://www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog)

## 1. Cyflwyniad

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol:

| **Cwynion** |
|---|
| • Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |
| **Sgiliau Cymraeg Cyflogeion** |
| • Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. |
| **Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg** |
| • Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.<br>• Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg. |
| **Swyddi a Hysbysebwyd** |
| • Nifer y swyddi newydd ac a oedd yn wag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle roedd: |

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol,
- Angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd,
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu
- Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol.

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n rhestru'r safonau, a'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer pob un o'r safonau.

Cytunir a chymeradwyir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-24 gan y Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol y safonau.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn y Cabinet ar **16 Mai 2024** a'r Cyngor llawn ar **23 Mai 2024**.

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog erbyn y dyddiad cyhoeddi statudol sef **30 Mehefin 2024.**

## 2. Llwyddiannau

- Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **14,291,057** o eiriau yn ystod 2023-24 (dychwelwyd **99.8%** o'r holl geisiadau i'r cleient erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno).

- Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu **35%** ers 2022-23 gan gynrychioli **26%** o'r gweithlu sydd wedi'i gofrestru ar system AD DigiGOV y Cyngor.

- Yn 2023-24, cymerodd **1765** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg.

- Mynychodd **454** aelod o staff Cyngor Caerdydd gyrsiau Cymraeg ffurfiol a ddarparwyd gan Academi Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

- Cwblhawyd e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd gan **995** aelod o staff yn 2023-24.

- Hysbysebodd y Cyngor **52** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **1001** o swyddi ychwanegol lle’r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol.

- Lansiwyd partneriaeth Pencampwr Addysg Gymraeg De-ddwyrain Cymru yn 2023-24 i hyrwyddo addysg Gymraeg yn y rhanbarth. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Mentrau Iaith, a phartneriaid eraill, ac fe'i ariennir gan Lywodraeth Cymru.

- Cefnogir darpariaeth ieuenctid Cymraeg yng Nghaerdydd - o dan frand CFTi - gan dri swyddog ieuenctid Cymraeg ymroddedig fel partneriaeth rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Menter Iaith Caerdydd a'r Urdd.

- Cyfarfu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog yn rheolaidd yn 2023-24 a chytunwyd ar raglen o ddarpariaeth ieuenctid Gymraeg a gyflawnwyd gyda chefnogaeth CFTi a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd.

- Mae is-grwpiau wedi'u sefydlu gyda phartneriaid Caerdydd Ddwyieithog a'r Fforwm Addysg Gymraeg i gefnogi deilliannau penodol yn strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Cynhaliwyd ffair yrfaoedd Gyrfa Gymraeg ar gampws Heol Dumballs Coleg Caerdydd a'r Fro, a mynychodd dros **300** o ddisgyblion Blwyddyn 9 o ysgolion uwchradd Plas Mawr a Bro Edern.

- Dyrannwyd lleoedd Derbyn i **665** o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer mis Medi 2023, sef **17.8%** o gyfanswm y niferoedd derbyn ar draws y ddinas.

- Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymraeg fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a’r Diwrnod Hawliau eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.

- Cynhaliodd Academi Caerdydd ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Sir ar 1 Mawrth 2024 i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg gyda staff Cyngor Caerdydd.

## 3. Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd

Mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd yn rhoi cyfle i holl staff y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae Academi Caerdydd - darparwr hyfforddiant mewnol y Cyngor - wedi datblygu amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg sy'n gweddu i bob lefel hyfedredd ac maent yn gymysgedd o ddysgu digidol, dan arweiniad tiwtor a dysgu hybrid. Mae'r cynnig hyfforddiant hwn yn cael ei ategu gan gyrsiau a gynigir drwy gynllun iaith Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r hyfforddiant hwn, cynhyrchwyd dau e-fodiwl gorfodol gan Academi Caerdydd:

- E-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 - mae hwn yn darparu cwrs blasu byr i staff, gan gynnwys cyfarchion a geirfa syml. Fe'i cwblhawyd gan **1311** o staff yn 2023-24.

- E-fodiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg – mae hwn yn cynnig cyd-destun diwylliannol a hanesyddol i staff y Cyngor am y Gymraeg ac am siaradwyr Cymraeg. Fe'i cwblhawyd gan **995** staff yn 2023-24.

Yn ychwanegol, cwblhaodd **454** o staff y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a ddarperir gan Academi Caerdydd a'r cynllun Iaith Gwaith.

Mae cyfanswm nifer staff Cyngor Caerdydd sydd wedi cyfranogi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2023-24 wedi cynyddu **11%** ymhellach ar y cyfanswm a welwyd yn 2022-23.

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yn cefnogi asesiadau gweithle a arweinir i fesur capasiti o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Defnyddir canlyniadau'r asesiadau hyn i lywio gofynion hyfforddi'r Gymraeg, nodi swyddi hanfodol a dymunol Cymraeg, a recriwtio staff.

Mae'r dogfennau canllaw canlynol wedi'u llunio er mwyn helpu i gynnal yr asesiadau hyn ac i ddatblygu a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg:

- Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg ac Adnabod Rolau Cymraeg Hanfodol.

- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Gymraeg.

Rhaid i'r holl rolau yng Nghyngor Caerdydd sy'n delio â chwsmeriaid gynnwys sgiliau Cymraeg a/neu iaith Gymunedol fel gofyniad dymunol.

Dechreuodd adolygiad ar draws y Cyngor o swyddi hanfodol Cymraeg dynodedig yn 2023-24. Mae'r adolygiad yn parhau, ond mae'r canlyniadau cyntaf wedi galluogi adnabod timau unigol a gwasanaethau i dderbyn cefnogaeth a chyngor pwrpasol ar hyfforddiant a recriwtio Cymraeg. Mae sesiynau cynghori wedi'u teilwra gyda thimau a rheolwyr yn cael eu datblygu gan dîm polisi Caerdydd Ddwyieithog a swyddogion perfformiad Cyfarwyddiaethau'r Cyngor.

O ganlyniad i'r mesurau a gyflwynwyd gan y strategaeth Sgiliau Iaith, cofnododd **26%** o staff y Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) sydd wedi eu cofrestru ar y system AD DigiGOV fod ganddynt ryw lefel o sgiliau Cymraeg. Er nad yw pob aelod o staff wedi'i gofrestru ar y system DigiGOV, mae nifer yr aelodau staff sy'n dweud bod ganddynt sgiliau Cymraeg yn cynrychioli **18%** o holl weithlu'r Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) yn 2023-24.

## 4. Datblygu Polisi

Cynhaliwyd adolygiad o brosesau datblygu polisi Cyngor Caerdydd yn 2023-24 i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Rhannwyd nodyn cyfarwyddyd gyda staff y Cyngor i amlinellu'r gofynion a'u cymhwysiad i bob cam o lunio polisi ac adolygu. Mae'r rhain yn cynnwys y broses o ddatblygu polisi ac adolygu ei hun, asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, a chynnal ymgynghoriadau polisi.

Mae dogfen ganllawiau Datblygu Polisi manylach hefyd wedi'i datblygu. Diben y polisi hwn yw cynorthwyo swyddogion i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd wrth ddatblygu polisïau newydd neu ddiwygio polisïau presennol. Mae'n rhoi manylion y gofynion deddfwriaethol a statudol ar gyfer datblygu polisi ac yn darparu fframwaith i swyddogion y Cyngor sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau bod rhoi ystyriaeth gydwybodol i dystiolaeth ynghylch pob effaith sy'n deillio o benderfyniad polisi - a'u heffaith ar y Gymraeg - yn ofyniad cyfreithiol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg a'u cofnodi ar gyfer yr holl bolisïau newydd a diwygiedig. Mae'n rhaid i'r asesiadau hyn nodi'r holl effeithiau cadarnhaol a negyddol sy'n deillio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o'r polisi arfaethedig - a manylu ar gamau gweithredu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol. Mae ffurflen Asesiad Effaith ar y Gymraeg y Cyngor wedi'i diweddaru i gefnogi hyn.

### Asesiadau Effaith ar y Gymraeg

Fel rhan o'r adolygiad i brosesau datblygu polisi'r Cyngor, nodwyd bod y modd y cynhelid asesiadau effaith yn risg gan eu bod yn tueddu i gael eu cwblhau'n hwyr yn y broses. Sefydlwyd y Grŵp Blaengynllunio Asesiadau Effaith i fynd i'r afael â hyn ac mae'n adolygu'r holl bolisïau newydd a

diwygiedig ac yn cadarnhau gofynion ac yn cynnig cyngor o ran asesiadau effaith ar gyfer meysydd gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant. Mae hyn yn caniatáu'r angen i gadarnhau asesiadau effaith llawn yn llawer cynharach yn y broses ddatblygu.

Yn 2023-24, adolygwyd **29** o asesiadau effaith gan Caerdydd Ddwyieithog a rhoddwyd sylwadau i'r gwasanaethau perthnasol ar sut y dylid cryfhau eu dogfen a chamau hyrwyddo a lliniaru i'w cynnwys. Cefnogwyd hyn gan sesiynau briffio gydag uwch dimau rheoli Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau a chymorth ar gyfer cynnal ymgynghoriadau staff a rhai cyhoeddus.

Mae'r camau hyn wedi darparu pwynt rheoli hanfodol yn y broses a datblygir asesiadau i'w cyhoeddi law yn llaw â dogfennau ymgynghori cyhoeddus i ddarparu cyd-destun digonol a thystiolaeth i'r cyhoedd gael eu hystyried ac i ddangos ystyriaeth gydwybodol hefyd o ran y Cyngor.

Mae'r Grŵp Blaengynllunio Asesiadau Effaith hefyd wedi ystyried templed ffurflen Asesiad Effaith Integredig y Cyngor ac wedi gwneud nifer o welliannau a diweddariadau i'r gwahanol adrannau i wneud rhywfaint o'r geiriad yn fwy eglur a'i gwneud yn haws i swyddogion ei gwblhau. Mae Caerdydd Ddwyieithog wedi edrych yn benodol ar Adran C yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac wedi diweddaru'r geiriad i gyfeirio at yr *iaith* Gymraeg a *siaradwyr* Cymraeg gan fod y geiriad gwreiddiol yn aneglur.

Mae blwch post pwrpasol Caerdydd Ddwyieithog hefyd wedi'i sefydlu ar gyfer materion polisi - Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters - ac fe gaiff ei hyrwyddo fel lleoliad ar gyfer pob ymholiad gan swyddogion y Cyngor ynghylch Safonau'r Gymraeg a pholisi'r Gymraeg.

Mae Strategaeth Cyfranogiad ddiweddara'r Cyngor hefyd wedi'i diwygio i gynnwys y testun isod sy'n cysylltu Safonau'r Gymraeg â'r prosesau ymgynghori polisi:

*Wrth gynnal unrhyw fath o ymgysylltu, rhaid inni wneud hynny'n ddwyieithog. Pan fo ymgynghoriadau yn ymwneud â datblygu neu ddiweddaru polisïau, strategaethau neu unrhyw fath o ddarpariaeth gwasanaethau, rhaid cynnal yr ymgynghoriadau hynny yn unol â Safonau'r Gymraeg 91-93. Gellir dod o hyd i Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg llawn Cyngor Caerdydd yma.*

**Asesiad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)**

Ym mis Hydref 2023 cafodd *Iaith Cyf.* a *Burum* eu comisiynu ar y cyd i baratoi Asesiad Effaith ar y Gymraeg ar y Strategaeth a Ffefrir i'r CDLl newydd ac ar y Cynllun Adneuo CDLl llawn dilynol. Hwn fydd y tro cyntaf i CDLl Caerdydd gael ei asesu yn y modd hwn a bydd yn mynd i'r afael â llawer o'r datblygiadau deddfwriaethol a chynllunio perthnasol yn ystod y deng mlynedd diwethaf a sut y maent yn effeithio ac yn rhyngweithio

â'r Gymraeg.  Mae'r gwaith asesu effaith hwn yn amserol, ac mae'r Cyngor yn arfer ymdrech gydwybodol o ran ei brosesau ymgynghori a'i waith datblygu polisi a'r Gymraeg.

Rhyddhawyd canlyniadau Cyfrifiad 2021 manylach yn 2023 gan roi gwaelodlin ystadegol cadarn i'r prosiect.  Cadarnhaodd y data fod Caerdydd yn un o'r ychydig ardaloedd o dwf i’r iaith yng Nghymru ac amlygodd hefyd ddwysedd y siaradwyr Cymraeg sydd ar gael ar draws cymdogaethau Caerdydd, o'u cymharu ag ardaloedd eraill o Gymru.  Mae Caerdydd, fel ardal awdurdod lleol, yn amlwg o bwysigrwydd i iechyd a thwf yr iaith dros y deng i bymtheg mlynedd nesaf.  Cefnogwyd y prosiect drwy weithio law yn llaw â’r cwmnïau ymgynghori allanol a thîm CDLl y Cyngor. Bydd yr ymdrech hon yn ategu strategaethau eraill yr Awdurdod ym maes yr iaith megis Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a'r CSCA.  Unwaith i’r cynllun datblygu terfynol gael ei fabwysiadu, bydd y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cynllunio atodol addas.

Bydd Cynllun Adneuo terfynol y CDLl newydd yn destun ymgynghoriad yn yr Hydref 2024 a’r bwriad yw ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn 2025.

## 5. Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

Lansiwyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ddiwygiedig yn Ebrill 2022. Dyma'r ail fersiwn o gynllun hyrwyddo 5 mlynedd y Cyngor ar y Gymraeg, roedd y strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf ar waith o 2017 tan 2022.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i halinio â Cymraeg 2050, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Thema 1:** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
**Thema 2:** Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
**Thema 3:** Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nodwyd camau gweithredu a thargedau i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru a'u cynnwys yng nghynllun gweithredu strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

Cyflawnir Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Caerdydd Ddwyieithog. Mae aelodaeth y Fforwm â chynrychiolaeth o blith ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, cyrff diwylliannol, a sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd.

Mae'r strategaeth hefyd yn ategu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-31 Cyngor Caerdydd ac mae amcanion a rennir a deilliannau wedi'u nodi a'u manylu yng nghynlluniau gweithredu'r ddwy strategaeth.

Mae is-grwpiau wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion unigol yn strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a chynlluniau gweithredu'r CSCA ac mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan bartneriaid Fforwm Caerdydd Dwyieithog a'r Fforwm Addysg Gymraeg.

**Gyrfa Gymraeg**

Sefydlwyd is-grŵp Gyrfa Gymraeg ym mis Chwefror 2023 i gefnogi datblygiad a chynnal digwyddiad i hyrwyddo'r Gymraeg a chyfleoedd gyrfaol Cymraeg. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gaerdydd Ddwyieithog, Coleg Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Gyrfa Cymru, Addewid Caerdydd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Cynhaliwyd Gyrfa Gymraeg yng nghampws Heol Dumballs Coleg Caerdydd a'r Fro ar 23 Mehefin 2023. Daeth dros **300** o ddisgyblion Blwyddyn 9 yno o ysgolion uwchradd Plas Mawr a Bro Edern. Roedd y diwrnod yn cynnwys sesiynau galwedigaethol ymarferol a ddarparwyd gan hyfforddwyr Coleg Caerdydd a'r Fro, paneli trafod yn cynnwys partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a stondinau partneriaid. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan yr ysgolion am weithgareddau a digwyddiadau'r diwrnod wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Cafodd is-grŵp Gyrfa Gymraeg ei ail-ffurfio ym mis Ionawr 2024 i ddechrau'r gwaith paratoi a chynllunio ar gyfer digwyddiad 2024. Bydd hwn yn cael ei gynnal yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar 18 Mehefin 2024.

**Cynyddu Niferoedd mewn Addysg Ôl-16**

Sefydlwyd yr is-grŵp hwn ym mis Ionawr 2024 i gefnogi cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ôl-16 cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gaerdydd Ddwyieithog, Tîm CSCA y Cyngor, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, y Consortiwm Addysg, ysgolion uwchradd, colegau a phrifysgolion Caerdydd, a Menter Caerdydd.

Pwrpas yr is-grŵp hwn yw nodi cyfleoedd i gefnogi colegau a phrifysgolion i gyrraedd eu targedau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynwyd y targedau hyn i'r colegau a'r prifysgolion gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd y grŵp yn mapio'r ddarpariaeth a gynigir ar hyn o bryd yng Nghaerdydd ac yn datblygu ymgyrch cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r cynnig Cymraeg.

**Menter Beilot gydag Ysgolion Cynradd**

Sefydlwyd yr is-grŵp hwn ym mis Hydref 2023 i gefnogi 3 ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd sydd wedi profi llai o niferoedd yn eu dosbarthiadau Derbyn. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Gaerdydd Ddwyieithog, Tîm CSCA y Cyngor, Pencampwr Addysg Gymraeg, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin, Addewid Caerdydd, Menter Caerdydd a'r tair ysgol gynradd eu hunain.

Pwrpas yr is-grŵp yw adnabod a chyflwyno camau gweithredu a mentrau i gefnogi'r ysgolion a hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn eu dalgylchoedd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi darpariaeth feithrin, diwrnodau agored i rieni, a digwyddiadau hyrwyddo. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan yr ysgolion. Mae'r gwaith gyda'r tair ysgol gynradd yn gynllun peilot a bydd y modelau hyrwyddo a ddatblygir yn cael eu cyflwyno i ysgolion eraill yn y dyfodol.

## 7. Plant a Phobl Ifanc

CFTi yw'r brand ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg i bobl ifanc yng Nghaerdydd. Mae'n bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Menter Iaith Caerdydd a'r Urdd. Mae brandio'r ddarpariaeth hon o dan un faner, sy'n hawdd ei hadnabod, yn hwyluso ei hyrwyddo a mynediad at weithgaredd ar gyfer pobl ifanc Caerdydd.

Yn 2023-24 cyflwynodd CFTi ymgynghoriad ledled y ddinas i ganiatáu i bobl ifanc roi eu barn ar y Gymraeg a darpariaeth ieuenctid ddwyieithog yng Nghaerdydd. Cafwyd dros 1800 o ymatebion. Cyflwynwyd y wybodaeth hon i'w thrafod gyda Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog a datblygwyd rhaglen o weithgareddau yn sgil hynny. Mae'r Fforwm wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd gydol y flwyddyn ac arhosodd rhai o'i aelodau am benwythnos yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog yn cymryd rhan ac asesu'r ddarpariaeth hon. Dangosodd yr ymgynghoriad hwn fod pobl ifanc Caerdydd yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd cymdeithasol ac am ddatblygu sgiliau newydd gyda'u ffrindiau ac i'r ddarpariaeth hon gael ei chynnig y tu allan i leoliadau ysgol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd gyda staff Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd i adnabod y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni'r ddarpariaeth y cytunwyd arni. Fe wnaethon nhw gadarnhau bod angen adnoddau digonol arnyn nhw, a bod yn rhaid i hyn gael ei gefnogi gan galendr o

ddigwyddiadau Cymraeg, cyfleoedd i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr, a chefnogaeth cyfieithu ar gyfer dogfennau ac arwyddion. Datblygwyd padlet gwybodaeth a rhoddwyd hyfforddiant Cymraeg i reolwyr Canolfan Ieuenctid Caerdydd o ganlyniad.

Ar ôl casglu'r holl wybodaeth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriadau cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda thargedau byrdymor a hirdymor ar gyfer pob amcan a gwerthusiad ddiwedd pob tymor i fesur llwyddiant.

Mae **19** sesiwn Gymraeg bellach yn cael eu cynnal yn wythnosol ar draws bron pob ysgol uwchradd Gymraeg a Saesneg a cholegau addysg bellach yng Nghaerdydd. Cynhelir y sesiynau hyn amser cinio, ar ôl ysgol neu gyda’r nos. Mae tîm o 8 gweithiwr ieuenctid bellach yn gweithio'n uniongyrchol i gefnogi darpariaeth ieuenctid Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith neu fel ail iaith.

Hefyd mae mentoriaid i bobl ifanc wedi'u sefydlu yn ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd i ddarparu cefnogaeth un i un i ddisgyblion.

## 7. Lansio gwefan Ein Dinas, Ein Hiaith.

Lansiwyd gwefan Ein Dinas, Ein Hiaith ar 1 Mawrth 2024. Mae'n gydweithrediad rhwng Timau Caerdydd Ddwyieithog a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Mae'r wefan yn cyflwyno gwybodaeth am addysg a diwylliant Cymraeg ar draws y ddinas a'i nod yw darparu siop un stop i gael gafael ar yr holl weithgareddau a chyfleoedd Cymraeg a gynigir yng Nghaerdydd.

Mae'r wefan yn cynnig adrannau penodol yn seiliedig ar grŵp oedran:

- **0 - 3 oed:** Clybiau babanod Cymraeg, gweithgareddau i blant bach, a grwpiau rhieni a babanod.
- **3 - 11 oed:** Addysg gynradd Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.
- **11 - 16 oed:** Addysg uwchradd Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.
- **Ôl-16:** Chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg, colegau trydyddol a gweithgareddau Cymraeg.
- **Myfyrwyr:** Cyrsiau prifysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd a gweithgareddau Cymraeg.
- **Oedolion:** Cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol, a siopau a gwasanaethau Cymraeg.

## 8. Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain

Mae Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain yn fenter sy'n bartneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a’r Mentrau Iaith. Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Pencampwr yn gweithio gyda swyddogion iaith ac addysg awdurdodau lleol a'r Mentrau Iaith i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r ffocws ar gynyddu hygyrchedd darpariaeth Gymraeg a'i hyrwyddo i rieni a chymunedau. Mae'r bartneriaeth wedi cael ei brandio o dan Cymraeg i Bawb / Welsh for Everyone.

Cefnogir y gwaith hwn gan bartneriaeth o 10 Awdurdod Lleol ac 8 Menter Iaith yn ne-ddwyrain Cymru.

Yn ystod 2023-24 mae'r prosiectau a gefnogir gan bartneriaeth Cymraeg i Bawb wedi cynnwys:

- Mapio darpariaeth addysg Gymraeg ar draws rhanbarth y De-ddwyrain.
- Asesiad o dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol.
- Datblygu fideos i hyrwyddo addysg Gymraeg i gymunedau lleiafrifol ethnig.
- Datblygu fideos i hyrwyddo a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymraeg.
- Datblygu cynllun ymgysylltu a marchnata addysg Gymraeg ar gyfer Awdurdodau Lleol
- Darparu baneri dwyieithog i hyrwyddo addysg Gymraeg ar gyfer pob ysgol gynradd Gymraeg ar draws rhanbarth y De-ddwyrain.
- Lansio gwefan Cymraeg i Bawb.

Cynhaliwyd cynhadledd Cymraeg i Bawb yn Nhŷ Bedwellte yn Nhredegar ar 15 Mawrth 2024 i ddangos arfer gorau wrth hyrwyddo addysg Gymraeg. Daeth dros 70 o bartneriaid o Awdurdodau Lleol, Mentrau Iaith, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill o bob rhan o ranbarth y De-ddwyrain. Cafwyd cyflwyniadau am waith y Pencampwr Addysg Gymraeg, gwaith Awdurdodau Lleol a Mentrau Iaith, Uned Drochi'r Gymraeg yn Ysgol Glan Ceubal, yr adeilad Ysgol Gymraeg sydd i'w hagor yn fuan yn Nhredegar, ac Uned Drochi'r Gymraeg yn Ysgol Panteg a Charreg Lam yn Nhorfaen.

Mae digwyddiad pellach i arddangos llwyddiannau'r bartneriaeth yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Hydref 2024.

## 9. Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA) 2022-2031

**Gweledigaeth y CSCA: Caerdydd wirioneddol ddwyieithog.**
Byddwn yn sicrhau twf ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Gallwch weld *CSCA* 2022-31 ar wefan y Cyngor.

**Datblygu'r CSCA a Chynllun Gweithredu'r CSCA**
Mae Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2022-31 wedi ei roi ar waith ers Ebrill 2022 gyda'r targed i Gaerdydd bod rhwng 25% a 29% o'r disgyblion mewn addysg Gymraeg erbyn 2031-32.

Cymeradwywyd cynllun gweithredu i gyflawni'r CSCA gan Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor ym mis Tachwedd 2022 a chan Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2022. Fe'i datblygwyd gyda chefnogaeth is-grwpiau ar gyfer pob un o 7 Deilliant y CSCA. Cefnogwyd yr is-grwpiau hyn gan Dîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.

Adeg cyfrifiad blynyddol diweddaraf yr ysgolion ym mis Ionawr 2023, roedd nifer y disgyblion wedi eu cofrestru mewn dosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg yn **658**, a oedd **17.1%** o'r cyfanswm niferoedd. Mae hyn yn is na chanran rhagamcanol y Cyngor o blant oed Derbyn y byddai angen iddynt gofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg i wneud cynnydd cyson yn erbyn y targed o 19% - 19.8% a osodwyd ar gyfer 2022-23.

Er mwyn cyrraedd ystod is targed mabwysiedig CSCA Caerdydd o 25% o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg erbyn 2032, byddai angen cynnydd canrannol o ryw 8%. Er mwyn cyrraedd ystod uwch y targed, byddai angen cynnydd canrannol o ryw 11%.

Mae data dewisiadau cynnar ar gyfer nifer y disgyblion sy'n mynd i'r Dosbarth Derbyn fis Medi 2024 yn rhoi syniad o'r niferoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a thwf mewn rhai ardaloedd o'r ddinas. Ar gyfer derbyn ym mis Medi 2023, cafodd tri phlentyn gynnig lle yn y ffrwd Gymraeg a phedwar yn y ffrwd iaith ddeuol yn Ysgol Gynradd Groes-wen. Mae'r data ar ddewisiadau ar gyfer Medi 2024 yn dangos cynnydd i 14 o ddewisiadau cyntaf ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 25 o ddisgyblion ar gyfer y ffrwd iaith ddeuol. Disgwylir i Ysgol Hamadryad fod yn llawn gyda dros 60 o ddewisiadau cyntaf. Mae hyn yn gynnydd o ran niferoedd o tua 50 yn y tair blynedd flaenorol.

Mae'r dewisiadau cyntaf ar gyfer Ysgol Gymraeg Coed Y Gof ac Ysgol Pen y Pil ac Ysgol Y Wern yn awgrymu y bydd y nifer a dderbynnir i'r ysgolion hyn yn parhau i ostwng ym mis Medi 2024.

Mae'r dewisiadau cyntaf ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan gan blant sy'n byw yn y dalgylch yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Ym mis Ionawr 2024 cytunodd Cabinet y Cyngor ar gynigion i gynyddu'r niferoedd derbyn yn Ysgol Mynydd Bach o 30 lle i 60 lle o fis Medi 2025 i gefnogi twf addysg Gymraeg yn ardal Cathays a Gabalfa.

Ym mis Ionawr 2023 roedd y capasiti mewn ysgolion a dosbarthiadau cynradd cyfrwng Cymraeg yn 27.9 Dosbarth Mynediad gan adael tua 21% o leoedd gwag mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg. Cynyddodd y capasiti i 28.9DM ym mis Medi 2023 gydag agor Ysgol Gynradd Groes-wen gan gynyddu'r gwarged lleoedd i tua 24%. Mae hyn yn dangos buddsoddiad parhaus y Cyngor a thwf yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod gan rieni hyder wrth sicrhau lle mewn ysgol o'u dewis iaith a pharhau i ysgogi a meithrin twf y Gymraeg ym mhob cymuned.

**Cofrestru Disgyblion**

Cynyddodd nifer y disgyblion a gofrestrwyd mewn Dosbarthiadau Derbyn Cymraeg yn gyson rhwng 2008-09 a 2012-13, er i'r ganran o gyfanswm y niferoedd derbyn amrywio. Mae niferoedd a chanrannau ers hynny wedi amrywio, ond gyda'r duedd gyffredinol tuag at gynnydd yn y ddau. Mae nifer y disgyblion a gofrestrodd yn 2023/24 ychydig yn uwch i'r nifer yn 2022/23, er bod hyn yn dal i fod yn ostyngiad bach ar y nifer a'r ganran uchaf o ddisgyblion a gofrestrodd mewn dosbarthiadau derbyn Cymraeg yng Nghaerdydd yn 2020/21. Gan fod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y disgyblion a gofrestrir mewn dosbarthiadau Cymraeg â'r boblogaeth ddisgyblion, sy'n gallu cynyddu neu ostwng, mae cynnydd yn y ganran yn fesur mwy priodol o lwyddiant wrth hybu addysg Gymraeg.

Mae Tabl 1 isod yn manylu ar gofrestriad disgyblion fel y'u cofnodir yng nata'r cyfrifiad ysgolion bob blwyddyn (* Nid yw data cyfrifiad 2023-24 ar gael eto; darperir data dyraniad.

| *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2008-09* | *555* | *3,474* | *16.0%* | *2016-17* | *744* | *4,340* | *17.1%* |
| *2009-10* | *572* | *3,683* | *15.5%* | *2017-18* | *707* | *4,098* | *17.3%* |
| *2010-11* | *594* | *3,859* | *15.4%* | *2018-19* | *702* | *4,125* | *16.9%* |
| *2011-12* | *651* | *4,019* | *16.2%* | *2019-20* | *683* | *4,119* | *16.6%* |
| *2012-13* | *686* | *4,221* | *16.3%* | *2020-21* | *749* | *4,136* | *18.1%* |
| *2013-14* | *678* | *4,256* | *15.9%* | *2021-22* | *657* | *3,789* | *17.3%* |

| *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Blwyddyn Ysgol* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* | *Nifer Derbyn Gwirioneddol (C, S a Ffydd)* | *% Nifer Derbyn Gwirioneddol (C)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2014-15* | *706* | *4,246* | *16.6%* | *2022-23* | *658* | *3,844* | *17.1%* |
| *2015-16* | *690* | *4,335* | *15.9%* | *2023-24** | *665** | *3,741** | 17.8%* |

***Tabl 1: Niferoedd a chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg Gymraeg o 2008/09 i 2023/24***

Dyrannwyd lleoedd Derbyn i **665** o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer mis Medi 2023, sef **17.8%** o gyfanswm y niferoedd derbyn ar draws y ddinas. Mae hyn yn gynnydd bychan o ran nifer a chanran ar y flwyddyn flaenorol. Cynigiwyd lle i bedwar disgybl arall yn y dosbarth iaith ddeuol yn Ysgol Gynradd Groes-wen, gan gynyddu'r ffigurau cyfrwng Cymraeg a deuol cyfun i **669** o ddisgyblion ac **17.9%** yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r data hwn yn cynrychioli lleoedd a gynigiwyd, yn hytrach na'r data cyfrifiad disgyblion cofrestredig diweddarach ac fe ddylid ei ystyried felly â gofal.


Mae data dewis cynnar ar nifer y disgyblion fydd yn mynd i Ddosbarth Derbyn fis Medi 2024 yn awgrymu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y disgyblion y dyrennir lle iddynt mewn ysgol gynradd Gymraeg o'i gymharu â'r niferoedd uchaf a welwyd. Mae hyn yn adlewyrchu cwymp yn y gyfradd genedigaethau.

Rhagamcenir y gwelir niferoedd Derbyn is, o'i gymharu â'r cyfnod brig, ym mis Medi 2025 a mis Medi 2026. Fodd bynnag, golyga hyn fod mwy o leoedd gwag i gyfran uwch o'r boblogaeth allu cofrestru mewn Dosbarth Derbyn Cymraeg. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd Cymraeg sydd ar gael ar adeg derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 27% o'r boblogaeth ddisgyblion ragamcannol yn 2025 a 2026. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg felly, i ganiatáu cynnydd sylweddol o ran niferoedd derbyn.

## 10. Cyfieithu Cymraeg

Dychwelodd Caerdydd Ddwyieithog **99.8%** o'r ceisiadau cyfieithu erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Mae cyfanswm y geiriau a gyfieithwyd (**14,291,057 o eiriau**) yn cynrychioli cynnydd o 6% o'i gymharu â chyfanswm y cyfrif geiriau a gyfieithwyd yn 2022-23.

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cefnogi nifer o bartneriaid allanol fel Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd drwy gynnig cyfieithu dogfennau a chyfieithu ar y pryd. Yn 2023/24, cwblhaodd tîm Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog ychydig yn fwy o waith ar gyfer partneriaid allanol (**7,297,301 o eiriau**) na chyfanswm y gwaith ar gyfer Cyngor Caerdydd (**6,993,756 o eiriau**). Mae hyn yn dyst i ymroddiad a gwaith caled y Tîm Cyfieithu wrth gyflawni gwaith o'r safon uchaf i gwsmeriaid mewnol ac allanol ac i roi cymorth a chefnogaeth hanfodol i'n partneriaid ar draws y de-ddwyrain.



## 11. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg

Yn ystod 2023-24, derbyniwyd cyfanswm o **7** cwyn gan y cyhoedd yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Pa un a dderbyniwyd cwynion yn Gymraeg neu yn Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

Roedd y Cyngor hefyd yn destun **3** ymchwiliad newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg i fethiant posibl i gydymffurfio â'r safonau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn 2023-24, derbyniodd y Cyngor:

- **2** ymchwiliad sy'n parhau.
- **1** ymchwiliad lle cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg nad oedd pwnc yr ymchwiliad yn gyfrifoldeb i'r Cyngor ac y mae hwn felly wedi'i gau.

## 12. Swyddi a hysbysebwyd yn 2023-24

Yn ystod 2023-24 cafodd **2312** o swyddi eu hysbysebu.

- Hysbysebwyd **52** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- Hysbysebwyd **1001** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.
- Hysbysebwyd **54% (1098)** o swyddi lle barnwyd nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol.**

## 13. Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chyrsiau hyfforddi Cyfrwng Cymraeg

Yn 2022–23, cymerodd **1765** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddi Cymraeg, ac o'r rhain:

- cwblhaodd **1311** aelod o staff e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 Academi Caerdydd
- mynychodd **348** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a ddatblygwyd yn fewnol gan Academi Cyngor Caerdydd ac mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a chyrsiau byr (**140** mynychwr) a chyrsiau dwys 120 awr (**208** mynychwr).
- cwblhaodd **11** aelod o staff y cwrs ar-lein 60 awr i ddechreuwyr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.
- cwblhaodd **46** aelod o staff y cwrs ar-lein 10 awr i ddechreuwyr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.
- cwblhaodd **49** aelod o staff gyrsiau galwedigaeth penodol drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.

Ar ben hyn:

- Cwblhaodd **995** aelod o staff e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd yn 2023-24.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar System AD fewnol y Cyngor (DigiGOV).

Cyflwynir y cyrsiau e-ddysgu canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig & Thrais Rhywiol
- Diogelu Corfforaethol

- Hawliau Plant
- Sut i Ddarparu Gwasanaeth Cwsmeriaid Gwych
- Ymwybyddiaeth o Dwyll
- Hanfodion Diogelu Data
- Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg
- Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1
- Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu Ar-lein
- Anwytho Corfforaethol

## 14. Sgiliau Cymraeg Gweithwyr

Gyda datblygiad y system AD (DigiGOV) a'r cyfle i aelodau o staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) y staff. Ar 31 Mawrth 2024, nodwyd bod **7566** aelod o staff (nad ydynt mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o **5144** eu cofnodion ar y system AD. O'r rhain mae **1344** aelod staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn gynnydd ar y nifer a adroddwyd yn 2022-23 (**994**) ac mae'n cynrychioli **26%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar y system neu **17.76%** o weithlu corfforaethol y Cyngor.

| | Lefelau Hyfedredd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Lefel Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch | Hyfedredd | Cyfanswm | % staff y gwasanaeth |
| OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU | 289 | 77 | 62 | 41 | 59 | 528 | 17.30% |
| GWASANAETHAU PLANT | 85 | 28 | 14 | 11 | 20 | 158 | 23.51% |
| DATBLYGU ECONOMAIDD | 59 | 22 | 23 | 13 | 16 | 133 | 9.88% |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (Ac Eithrio Ysgolion) | 78 | 30 | 21 | 8 | 34 | 171 | 19.79% |
| LLYWODRAETHIANT A GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 20 | 4 | 4 | 4 | 11 | 43 | 41.75% |
| PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU | 17 | 5 | | 4 | 26 | 52 | 47.71% |
| CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD | 36 | 10 | 7 | 2 | 8 | 63 | 10.64% |
| ADNODDAU | 93 | 28 | 16 | 25 | 34 | 196 | 23.67% |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | % y staff Corfforaethol |
| **Cyfanswm** | **677** | **204** | **147** | **108** | **208** | **1344** | **17.76%** |

Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu **35%** ers 2022-23 (**1344** yn 2023-24 o gymharu â **994** yn 2022-23). Priodolir y cynnydd hwn i godi ymwybyddiaeth, Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg) a chyrsiau Cymraeg

a ddarperir yn fewnol drwy ein tiwtor Cymraeg mewnol yn ogystal â’r Cynllun 'Iaith Gwaith'). Atgoffir staff yn rheolaidd i ddiweddaru eu cofnod manylion personol ar DigiGOV, ac mae'r rhain yn cynnwys dewis iaith a hyfedredd yn y Gymraeg.

## 15. Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol i’r Gymraeg ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a chynllun gweithredu’n cael ei ddatblygu, i symud agenda Mwy Na Geriau yn ei flaen. Mae aelodaeth y Fforwm bellach yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Choleg Caerdydd a'r Fro.  Mae hyn yn adlewyrchu mwy o ffocws ar ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio presennol ym maes gofal cymdeithasol. Bydd yr aelodaeth yn cael ei hehangu ymhellach i gynnwys darparwyr hyfforddiant ychwanegol, a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu a gweithredu mentrau recriwtio i annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â’r maes gofal cymdeithasol.

## 16. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â’r Safonau

**CYDLYNWYR A PHENCAMPWYR Y GYMRAEG**

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ledled ein Cyfarwyddiaethau a’n Gwasanaethau amrywiol, sy’n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwyieithog o ran gweithredu Safonau’r Gymraeg a hyrwyddo’r Gymraeg yn fewnol. Mae swyddogaeth rhwydwaith y cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu eu cyfarwyddiaethau i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a'r gofynion o ran Safonau'r Gymraeg.
- Rhoi adborth am unrhyw faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg gan y gwasanaeth i’r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth am unrhyw gwynion neu faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i’r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu gwasanaeth i’r Adroddiad Blynyddol am weithrediad Safonau’r Gymraeg.

Nid oes angen i gydlynwyr a phencampwyr siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am enwebu o leiaf un Cydlynydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli ei gyfarwyddiaeth.

Mae’r Pencampwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar lefel uwch reolwr mewn perthynas â materion penodol sy’n ymwneud â’r Gymraeg. Maen nhw hefyd yn monitro agendâu grwpiau uwch reolwyr ar gyfer eitemau sy’n ymwneud â goblygiadau Safonau’r Gymraeg ac yn cefnogi Cydlynydd Cymraeg eu gwasanaeth wrth hwyluso gweithredu Safonau’r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cadeirio gan Caerdydd Ddwyieithog.

**GWEITHGOR AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG**

Mae Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog yn grŵp trawsbleidiol a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gael gwasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu’r llall yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2023-24 cyfarfu'r grŵp bob chwarter i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg, ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, datblygu a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, cyflawni'r amcanion gan gefnogi Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27, a gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig y Cyngor.

Gwahoddir Fforwm Caerdydd Ddwyieithog a phartneriaid eraill i gyflwyno yng nghyfarfodydd Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog. Yn 2023-24 derbyniwyd cyflwyniadau gan dîm CFTi am y ddarpariaeth ieuenctid Cymraeg yng Nghaerdydd a chan Bencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain am waith y bartneriaeth sy'n hyrwyddo'r cynnig addysg Gymraeg.

**CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETHAU**

Rhaid i bob cyfarwyddiaeth Cyngor roi manylion am gamau gorfodi a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn eu Cynlluniau Cyflawni Adrannol. Mae'r wybodaeth ofynnol yn cynnwys disgrifiad o'r Camau Gorfodi unigol, swyddog cyfrifol y Cyngor, dyddiadau cwblhau y Camau Gorfodi, a thystiolaeth o gwblhad a roddwyd i Gomisiynydd y Gymraeg.

Caiff yr wybodaeth hon ei diweddaru yn ystod y flwyddyn wrth i Gamau Gorfodi ddod i law a’u gweithredu gan ddarparu cofnod byw o sut y maent yn cael eu gweithredu gan y Cyngor a hwyluso adrodd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg a'r ohebiaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae canllawiau sy'n cynghori swyddogion Cyngor am y gofynion ar gael ar dudalen fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog.

**UWCH DÎM RHEOLI**

Mae materion sy’n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, yn cael eu cyflwyno’n rheolaidd i gyfarfodydd yr UDRh er gwybodaeth ac i alluogi gweithredu.

**Y CABINET A’R CYNGOR LLAWN**

Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y lefel uchaf.

## 17. Hyrwyddo a Hwyluso’r Safonau

**CANLLAWIAU STAFF**
Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithrediad y safonau, mae’r Cyngor wedi creu a diweddaru canllawiau i staff. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o ‘Safonau Cyflawni Gwasanaeth’
- Cyfathrebu’n Ddwyieithog
- Gwasanaethau Dwyieithog Derbynfeydd
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwyieithog
- Galwadau Ffôn Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw Camau Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Partïon
- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar dudalen Fewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac maent wedi'u hyrwyddo'n rheolaidd drwy negeseuon Gwybodaeth Staff a briff Materion y Gymraeg.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau o staff ar dudalen mewnrwyd Caerdydd Ddwyieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais cyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais cyfieithu wedi'u diweddaru i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 3 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

**BRIFF MATERION Y GYMRAEG**

Dosberthir brîff Materion y Gymraeg i staff drwy'r rhwydwaith cydlynwyr y Gymraeg. Mae'r brîff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am hyfforddiant Cymraeg ac erthyglau eraill sy'n ymwneud ag agenda'r Gymraeg.

**CLWB CYMDEITHASOL C4**

Mae adnodd i hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau rhithwir Cymraeg wedi cael ei ddatblygu a'i lansio gan hyfforddwr Cymraeg mewnol y Cyngor. Cyflwynir yr adnodd ar lwyfan Microsoft Teams ac mae'n galluogi defnyddwyr i drefnu cyfarfodydd, grwpiau trafod a digwyddiadau cymdeithasol fel y gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gwrdd â'i gilydd i sgwrsio yn Gymraeg a gwella sgiliau iaith. Trefnwyd cyfarfod wythnosol hefyd gan diwtor Cymraeg y Cyngor.

**CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYFIEITHU A CHYNGOR AR BOLISI**

Mae Caerdydd Ddwyieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a chyfieithu ar y pryd llawn i bob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i safonau statudol y Gymraeg.

Blwch e-bost pwrpasol MaterionPolisiIaithGymraeg@caerdydd.gov.uk wedi ei sefydlu fel pwynt cyswllt i staff y Cyngor am gyngor ar Safonau'r Gymraeg, asesiadau effaith ar y Gymraeg, ymgynghoriadau polisi, ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg.

**HYFFORDDIANT CYMRAEG**

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i roi cyfle i'w holl aelodau staff ymgysylltu â hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae’r e-fodiwlau Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 ac Ymwybyddiaeth Iaith yn caniatáu i staff ddysgu geirfa ac ymadroddion cyffredin Cymraeg a darparu cyd-destun hanesyddol a diwylliannol ar gyfer yr iaith.

Mae Academi Cyngor Caerdydd hefyd wedi datblygu amrywiaeth eang o gyrsiau Cymraeg. Mae'r rhain wedi'u teilwra i ganiatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i annog staff y Cyngor i gymryd rhan. Dyma'r cyrsiau a ddatblygwyd gan Academi Cyngor Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- **Mynediad Ar-lein (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir hunanastudio yn bennaf.
- **Mynediad (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir sy’n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.
- **Sylfaen (Cymraeg Lefel 2)** – cwrs rhithwir lefel sy’n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.
- **Rhagflas Hanner Diwrnod** – cwrs cyflwyno dan arweiniad tiwtor.
- **Canolradd (Cymraeg Lefel 3)** - cwrs sy’n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor ar gyfer dysgwyr mwy hyderus a'r rhai sy'n siarad Cymraeg ond sydd wedi colli eu hyder ar lafar.
- **Dechreuwyr Deuddydd** – cwrs rhithwir dan arweiniad tiwtor i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol cadarn.
- **CROESO Rhan 1** – cwrs rhithwir hunanastudio y gall staff ei gwblhau ar unrhyw adeg.
- **Mynediad (Cymraeg Lefel 1) Trochi** – cwrs sy'n cael ei arwain gan diwtor a gyflwynir drwy sesiwn 4 awr wythnosol.
- **Uwch (Cymraeg Lefel 4)** – cwrs sy’n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor gyda ffocws ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- **Hyfedredd (Cymraeg Lefel 5)** – cwrs sy’n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor sy'n canolbwyntio ar Gymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar mwy ffurfiol.

Darparwyd tiwtor gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynorthwyo tiwtor Cymraeg mewnol Academi Cyngor Caerdydd i gyflwyno'r cyrsiau hyn ac i gefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i roi cyfle i'w staff dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg ac nid oes cost unigol i staff y Cyngor, na'u cyfarwyddiaethau, ac mae staff yn cael eu credydu am amser yn mynychu cyrsiau.

**HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH IAITH**

Diwygiwyd y modiwl ymwybyddiaeth iaith yn 2020-21 a'i gyflwyno fel e-fodiwl gan lwyfan dysgu Academi Cyngor Caerdydd. Mae’n cael ei gyflwyno i'r holl staff ar hyn o bryd (gan gynnwys staff ysgolion).

Mae'r e-fodiwl yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Cyd-destun hanesyddol y Gymraeg.
- Pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion Caerdydd.
- Rôl a chyfrifoldeb staff o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut y darperir gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.

**LANIARDIAU A BATHODYNNAU ‘IAITH GWAITH'**

Cynhyrchir cortynnau gwddf Iaith Gwaith gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr eu bod yn siarad Cymraeg. Gellir gofyn i Gaerdydd Ddwyieithog am y cortynnau hyn - ynghyd â rhai dysgwyr Cymraeg - ar unrhyw adeg.